

Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio – Cyngor Sir Gaerfyrddin

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2475A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Gaerfyrddin fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 4

Adroddiad manwl

Mae angen mynd i'r afael ar frys â materion arwyddocaol a hirsefydlog o ran perfformiad yn y gwasanaeth cynllunio i helpu i wireddu uchelgeisiau'r Cyngor 8

Mae angen cryfhau trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr i'w helpu i wireddu ei uchelgeisiau o ran adfywio 8

Mae materion arwyddocaol, hirsefydlog o ran perfformiad ym maes rheoli datblygu a gorfodi cynllunio yn tanseilio'r gallu i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol 9

Mae angen i'r Cyngor fynd ati ar frys i adolygu ei berfformiad a'i drefniadau gwella gwasanaeth ar gyfer ei wasanaeth cynllunio i wasanaethu ei gwsmeriaid yn well 10

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Yn dilyn ein gwaith Sicrwydd a Risg yn 2018-19, cafodd perfformiad y gwasanaeth cynllunio yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin (y Cyngor) ei nodi fel risg bosibl. Wedi hynny roeddem yn bwriadu cynnal adolygiad o'r gwasanaeth cynllunio fel rhan o'n harchwiliad yn 2019-2020. Ar gais y Cyngor fe wnaethom ohirio ein hadolygiad tra'r oedd yn comisiynu ei adolygiad allanol ei hun, a oedd yn dwyn y teitl 'Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cynllunio'. Daeth yr adolygiad allanol hwn i ben ym mis Rhagfyr 2019 ac roedd yr adroddiad yn amlygu nifer o faterion ac yn gwneud nifer o argymhellion.
- 2 Trwy gytundeb gyda'r Cyngor, roedd ein hadolygiad wedi hynny'n ceisio darparu sicrwydd a mewnwleidiad wrth ystyried a yw'r gwasanaeth cynllunio'n cyflawni ei amcanion ei hun ac yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion ar y cyfan. Fe wnaeth ein gwaith adolygu pa un a oes gan y Cyngor drefniadau priodol i gynllunio a darparu ei wasanaethau cynllunio mewn modd cynaliadwy.
- 3 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ebrill 2021.

Yr hyn a ganfuom

- 4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw'r gwasanaeth cynllunio'n cyflawni ei amcanion ei hun ac yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion ar y cyfan?**
- 5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Mae angen mynd i'r afael ar frys â materion arwyddocaol a hirsefydlog o ran perfformiad yn y gwasanaeth cynllunio i helpu i wireddu uchelgeisiau'r Cyngor.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
 - mae angen cryfhau trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr i'w helpu i wireddu ei uchelgeisiau o ran adfywio;
 - mae materion arwyddocaol, hirsefydlog o ran perfformiad ym maes rheoli datblygu a gorfodi cynllunio yn tanseilio'r gallu i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol; ac
 - mae angen i'r Cyngor fynd ati ar frys i adolygu ei berfformiad a'i drefniadau gwella gwasanaeth ar gyfer ei wasanaeth cynllunio i wasanaethu ei gwsmeriaid yn well.

Argymhellion

Wrth fynd i'r afael â'r materion arwyddocaol a hirsefydlog o ran perfformiad yn ei wasanaeth cynllunio, rydym yn cynghori'n gryf bod y Cyngor yn blaenoriaethu'r

argymhellion hyn. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar gynnydd y Cyngor o ran gwella'i wasanaeth cynllunio yn ystod y 12 mis nesaf.

Arddangosyn 1: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion

Effaith strategol

Dylai'r Cyngor:

- A1** alinio'i wasanaeth cynllunio â'i uchelgeisiau corfforaethol i sicrhau:
- ei fod yn gallu ymateb yn effeithiol i ymdrin â'i uchelgeisiau adfywio ac yn gallu eu gwireddu'n gyflym; a
 - bod y gwasanaeth cynllunio'n cyfrannu'n effeithiol at yr agenda gorfforaethol ac yn cydweithio gyda gwasanaethau eraill i'w chyflawni.
- A2** adolygu'r rôl a'r deilliannau y mae'n eu disgwyl gan ei wasanaeth cynllunio fel rhan o'i grwpiau strategol, i sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i integreiddio'n effeithiol ac yn cyflawni'r deilliannau gofynnol.

Darparu gwasanaethau – rheoli datblygu

Dylai'r Cyngor:

- A3** ddatblygu cynllun a llinell amser i ymdrin â'i ôl-groniad o geisiadau cynllunio, yn enwedig yr ôl-groniad hanesyddol.
- A4** adolygu ei drefniadau casglu data cynllunio i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n gywir ac yr adroddir arnynt yn gywir.
- A5** mynd i'r afael â'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r gorwariant parhaus yn ei wasanaeth cynllunio a'r ad-daliad ffioedd posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â phenderfynu ar geisiadau.

Darparu gwasanaethau – gorfodi cynllunio

Dylai'r Cyngor:

- A6** ddatblygu cynllun a llinell amser i ymdrin â'i ôl-groniad gorfodi cynllunio, yn enwedig yr ôl-groniad hanesyddol.
- A7** adolygu'r adnoddau a'r capasiti o fewn ei wasanaeth gorfodi cynllunio i fynd i'r afael â'r llwyth achosion sy'n cronni.
- A8** sicrhau bod gwasanaethau cysylltiedig eraill yn y Cyngor yn gallu dygymod ag unrhyw godiadau mewn gwaith gorfodi cynllunio.

Argymhellion

A9 sicrhau bod unrhyw newidiadau i'w bolisi gorfodi'n cael eu hasesu ar gyfer effaith ac yr ymgynghorir arnynt, i sicrhau bod yr holl ganlyniadau'n cael eu hystyried.

Rheoli risg

Dylai'r Cyngor:

- A10** adolygu ei gofrestr risgiau corfforaethol i sicrhau bod y risgiau cynllunio, sy'n gysylltiedig â rheoli datblygu a gorfodi cynllunio, yn cael eu diffinio'n gynhwysfawr a bod camau lliniaru eglur ar eu cyfer.
- A11** ei sicrhau ei hun bod ei drefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli risg yn effeithiol¹.

Ymateb i ganfyddiadau adolygiadau

A12 Dylai'r Cyngor sicrhau, wrth ymateb i ganfyddiadau'r holl adolygiadau o effeithiolrwydd ei wasanaeth cynllunio, ei fod:

- yn blaenoriaethu'r camau gweithredu;
- yn mynd ati'n rheolaidd i werthuso effaith y newidiadau y mae'n eu gwneud; ac
- yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd wrth uwch swyddogion ac Aelodau i sicrhau goruchwyllo a monitro tryloyw ac amserol, ac y cymerir unrhyw gamau cywirol.

Rheoli perfformiad

Dylai'r Cyngor:

- A13** sicrhau bod y data sydd ar gael dan system rheoli perfformiad newydd y gwasanaeth cynllunio (Arcus) yn cael ei ddylunio, ei ddefnyddio i'r eithaf, a'i gyflwyno i gael ei ddadansoddi mewn cyfarfodydd perthnasol.
- A14** sicrhau ei fod yn cyflwyno ystod o wybodaeth am berfformiad cynllunio wedi'i chydgrynhoi i uwch swyddogion ac Aelodau i roi darlun llawnach iddynt o berfformiad y gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys:
- data ar berfformiad;
 - data ariannol;

¹ Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal adolygiad yn flaenorol o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risg. Cafodd yr adroddiad, **Arolwg o Drefniadau Rheoli Risg – Cyngor Sir Gaerfyrddin**, ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019 ac roedd yn cynnwys chwe chynnig ar gyfer gwella. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan Archwilio Cymru [yma](#).

Argymhellion

- gwybodaeth am gwynion; a
- gwybodaeth am reoli risg.

A15 meincnodi, cydweithio a rhannu gwersi a ddysgwyd yn well gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ganfod arfer da a'i roi ar waith.

Safbwynt defnyddwyr gwasanaethau

A16 Dylai'r Cyngor fynd ati'n well i ystyried a chymhwyso safbwynt defnyddwyr ei wasanaethau wrth ddylunio a darparu ei wasanaethau cynllunio i wella'r gwasanaeth yn barhaus mewn ffordd gynaliadwy. Dylai hyn gynnwys:

- deall y sefyllfa gyfredol o ran tueddiadau mewn cwynion ac adborth gan gwsmeriaid, a gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion;
 - nodi safonau eglur y gall defnyddwyr gwasanaethau eu disgwyl;
 - gwella'r ymgysylltu a chyfathrebu parhaus gyda chwsmeriaid; a
 - sefydlu mecanwaith gwell ar gyfer casglu, gwerthuso, a chymhwyso adborth cwsmeriaid.
-

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

A17 Dylai'r Cyngor achub ar y cyfle mewn unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth cynllunio i ystyried sut y gallai weithredu'n fwy unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy² o ran cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.

² Caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei nodi yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Adroddiad manwl

Mae angen mynd i'r afael ar frys â materion arwyddocaol a hirsefydlog o ran perfformiad yn y gwasanaeth cynllunio i helpu i wireddu uchelgeisiau'r Cyngor

Mae angen cryfhau trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr i'w helpu i wireddu ei uchelgeisiau o ran adfywio

- 6 Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiadau o'i wasanaeth cynllunio yn flaenorol oherwydd ei bryderon ei hun ynghylch perfformiad y gwasanaeth a'i allu i roi cymorth effeithiol i wireddu uchelgeisiau corfforaethol y Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Tîm Trawsnewid, Arloesi a Newid (TIC) y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r gwasanaeth i ystyried newidiadau i brosesau o fewn y gwasanaeth i geisio llywio gwelliannau yn y modd y darperir gwasanaethau. Fodd bynnag, fe achosodd pryderon parhaus y Cyngor ynghylch effeithiolrwydd ei wasanaeth cynllunio iddo gomisiynu ei adolygiad allanol ei hun. Daeth yr adolygiad hwn a gomisiynwyd i ben ym mis Rhagfyr 2019, ac roedd yr adroddiad a ddeilliodd ohono'n cynnwys 50 o argymhellion. Ers hynny mae'r gwasanaeth cynllunio wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.
- 7 Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn amlygu pwysigrwydd adfywio. Mae'r Cyngor wedi datgan pwysigrwydd blaenoriaethu cynlluniau adfywio sy'n ymwneud â chreu swyddi a thwf economaidd ar ôl Covid. Nid yw wedi canfod a yw ei wasanaeth cynllunio'n gallu rhoi cymorth effeithiol iddo gyflawni'r flaenoriaeth adfywio.
- 8 Mae'r Cyngor yn methu â phenderfynu ar lawer o geisiadau cynllunio mawr o fewn y llinellau amser a ragnodir. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019 dim ond 39.1% o geisiadau cynllunio mawr y gwnaeth benderfynu arnynt o fewn y llinellau amser a ragnodir gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn ei roi yn y 19eg safle allan o 25 o awdurdodau cynllunio yng Nghymru, ac yn y categori 'gwella' a bennwyd gan Lywodraeth Cymru³. Am y chwe blynedd, rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2019, 20.9% oedd perfformiad cyfartalog y Cyngor ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr o fewn y llinellau amser a ragnodir gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn ei roi yn y 24ain safle allan o 25 o awdurdodau cynllunio yng

³ Llywodraeth Cymru, **Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2018-19**, Rhagfyr 2019, tudalen 24

Nghymru⁴. Gallai'r perfformiad gwael hwn fod yn effeithio ar allu'r Cyngor i fynd ati'n gyflym i wireddu ei uchelgeisiau o ran adfywio.

- 9 Un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at berfformiad gwael y Cyngor o ran penderfynu ar geisiadau mawr yw ei ôl-groniad sylweddol o geisiadau cynllunio sy'n disgwyl am benderfyniad. Gan bod y gwasanaeth cynllunio dan bwysau o ganlyniad i ymdrin â'r ôl-groniad hwn, efallai nad oes ganddo ddigon o gapasiti i gyfrannu'n effeithiol at agenda gorfforaethol ehangach y Cyngor hefyd.
- 10 Mae'r gwasanaeth cynllunio'n rhan o rai o grwpiau strategol allweddol y Cyngor gan gynnwys y: Tîm Cyflawni Adfywio, Grŵp Adfer Busnesau, yr Economi a Chymunedau a grwpiau'r Rhaglen Gyfalaf. Dylai'r Cyngor adolygu mewnbyn a rôl y gwasanaeth cynllunio ar y grwpiau hyn i'w sicrhau ei hun bod y gwasanaeth yn cyfrannu'n effeithiol at ei uchelgeisiau corfforaethol.

Mae materion arwyddocaol, hirsefydlog o ran perfformiad ym maes rheoli datblygu a gorfodi cynllunio yn tanseilio'r gallu i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol

Rheoli Datblygu

- 11 Mae gan y Cyngor ôl-groniad sylweddol o ran ceisiadau cynllunio sy'n disgwyl am benderfyniad. O ran y sefyllfa ar 15 Mawrth 2021, roedd ganddo 847 o geisiadau yn disgwyl am benderfyniad. Er nad yw ôl-groniadau'n anarferol, mae ôl-groniad y Cyngor yn cynnwys rhai sy'n dyddio'n ôl dros bum mlynedd. Ar adeg ein hadolygiad nid oedd ganddo gynllun gweithredu clir i ymdrin â'r achosion hanesyddol hyn.
- 12 Er yr ymddengys fod gan y Cyngor ddigon o adnoddau o fewn ei swyddogaeth Rheoli Datblygu i benderfynu ar nifer y ceisiadau sy'n dod i law, nid oes ganddo'r capasiti i ymdrin yn effeithiol nac yn gynaliadwy â'r rhain a'r achosion sydd wedi ôl-gronni. Mae'r ôl-groniad mewn ceisiadau'n rhwystro gallu'r gwasanaeth i fod yn wasanaeth â pherfformiad uchel sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.
- 13 Rydym hefyd yn pryderu efallai nad yw'r Cyngor yn casglu ei ddata ar berfformiad cynllunio yn gywir yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Gallai hyn ddwyn canlyniadau arwyddocaol gan y gall y Cyngor fod yn cam-adrodd am ei ddata ar berfformiad sy'n gysylltiedig â'r amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio, ac fe allai perfformiad fod yn waeth na'r hyn a gofnodir ac yr adroddir arno ar hyn o bryd. Mae angen i'r Cyngor adolygu hyn ar frys i'w sicrhau ei hun bod y data y mae'n ei gasglu ac yn ei ddefnyddio'n gywir.
- 14 Mae gan y gwasanaeth cynllunio hanes o orwariant ac mae wedi gorwario bob blwyddyn o 2015-2020. Roedd cyfanswm y gorwariant yn y cyfnod hwn o 5

⁴ Llywodraeth Cymru, **Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2018-19**, Rhagfyr 2019, tudalen 25

mlynedd yn fwy nag £1.8 miliwn. Yn 2019-20 yr oedd y gorwariant mwyaf pan orwariodd y gwasanaeth cynllunio o £512,000.

- 15 Mae risg ariannol bosibl yn gysylltiedig â pheidio â phenderfynu ar geisiadau hefyd, y mae angen i'r Cyngor ei hystyried a chynllunio ar ei chyfer.

Gorfodi Cynllunio

- 16 Mae gan y Cyngor hefyd ôl-groniad o achosion gorfodi cynllunio. O ran y sefyllfa ar 15 Mawrth 2021 roedd 761 o achosion gorfodi cynllunio yn disgwyl i'r Cyngor ymdrin â hwy.
- 17 Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 cafodd y Cyngor 341 o achosion gorfodi ac ymdrinodd â 192 (nid ymdriniwyd â 149). Ar y lefelau cyfredol o adnoddau a pherfformiad, bydd ôl-groniad y gwasanaeth gorfodi cynllunio'n parhau i dyfu, gan bod y gwasanaeth yn cael mwy o gwynion gorfodi nag y gall ymdrin â hwy. Nid yw'r gwasanaeth ar ei ffurf bresennol yn gynaliadwy.
- 18 Nid oes gan y Cyngor strategaeth glir i ymdrin yn gynaliadwy â'r ôl-groniad mewn cwynion gorfodi cynllunio. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn cynyddu camau gorfodi yn y dyfodol fe allai hyn arwain at effaith gynyddol o ran cynyddu ceisiadau cynllunio ôl-weithredol, gan waethygu ei bwysau o ran ceisiadau cynllunio a'r ôl-groniad ohonynt. Bydd angen i'r Cyngor gynllunio ar gyfer effaith cynyddu ei gamau gorfodi ar y gwasanaeth rheoli datblygu a gwasanaethau cysylltiedig eraill.
- 19 Mae gwasanaeth gorfodi cynllunio'n creu risg i'r Cyngor gan ei fod o bosibl yn:
- effeithio'n negyddol ar gydymffurfio â pholisi cynllunio;
 - tanseilio gwasanaeth cwsmeriaid a'u hyder yn y gwasanaeth cynllunio; ac yn
 - rhwystro'r Cyngor rhag cyflawni ei amcanion llesiant, megis bioamrywiaeth.
- 20 Mae'r Cyngor yn y camau cynnar o ran ystyried newidiadau i'w bolisi gorfodi, i godi'r trothwyon ar gyfer ymyrryd. Nid yw eto wedi asesu nac ymgynghori ynghylch ehangder effaith a chanlyniadau posibl newid o'r fath mewn polisi ar bolisiâu a strategaethau eraill y Cyngor, nac ar y cyhoedd.

Mae angen i'r Cyngor fynd ati ar frys i adolygu ei berfformiad a'i drefniadau gwella gwasanaeth ar gyfer ei wasanaeth cynllunio i wasanaethu ei gwsmeriaid yn well

Adolygu a Monitro Mewnol

- 21 Fe ddatblygodd y gwasanaeth cynllunio gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r 50 o argymhellion a wnaed gan yr adolygiad allanol a gomisiynwyd gan y Cyngor o'i wasanaeth cynllunio, ond nid yw wedi:
- blaenoriaethu'r camau gweithredu;

- mynd ati'n rheolaidd i werthuso effaith y newidiadau y mae'n eu gwneud; nac
 - adrodd yn rheolaidd ar gynnydd wrth uwch swyddogion ac Aelodau i sicrhau goruchwyllo a monitro tryloyw ac amserol, a bod unrhyw gamau cywirol yn cael eu cymryd.
- 22 Lle mae'r gwasanaeth cynllunio'n gweithredu ar yr argymhellion, nid oes wastad gynllun eglur ar gyfer gweithredu na gweithgarwch effeithiol i fonitro'r camau gweithredu, gan gynnwys ar gyfer y ceisiadau cynllunio y gwnaeth y gwasanaeth eu trosglwyddo'n ddiweddar i gwmni yn y sector preifat yr oedd wedi'i gomisiynu i'w helpu i fynd i'r afael â'i ôl-groniad.
- 23 Mae'r gwasanaeth cynllunio wedi cymryd pum mlynedd i gyflwyno'i system rheoli perfformiad newydd, Arcus, a aeth yn fyw yn 2020. Nes bod Arcus yn ei lle, roedd yn anos i'r gwasanaeth gynhyrchu'r data hanfodol yr oedd ar y Cyngor ei angen i ddadansoddi a monitro ei berfformiad cynllunio'n effeithiol. Dan y system Arcus newydd, mae dangosfyrddau perfformiad bellach wedi cael eu creu, ond nid yw'r rhain wedi cael eu datblygu'n llawn eto.
- 24 Mae Tîm Rheoli Corfforaethol, Bwrdd Gweithredol a phwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor yn adolygu peth data ar berfformiad cynllunio trwy adroddiadau chwarterol ar berfformiad. Mae'r gwasanaeth cynllunio hefyd yn cynhyrchu Adroddiad Cynllunio Blynyddol, ac mae Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu Adroddiadau Cynllunio Cymru Gyfan. Fodd bynnag, cyfyngedig fu'r gweithgarwch gan y Cyngor i herio'r data perfformiad ar gyfer rheoli datblygu a gorfodi cynllunio. Ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd gwaith wedi cael ei wneud yn fewnol i fynd at y glo mân a dadansoddi'r data a'i gyd-destun.
- 25 Mae gweladwyedd darlun llawn, cyd-destunol o berfformiad gwasanaeth cynllunio'r Cyngor i uwch swyddogion ac Aelodau'n gyfyngedig. I alluogi swyddogion ac Aelodau i herio cymhlethdodau a llwyddiannau'r gwasanaeth yn effeithiol, mae angen i'r Cyngor drefnu bod ei data ar gael ac yn eglur.
- 26 Wrth adrodd ar berfformiad y gwasanaeth cynllunio, ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn adrodd ar y cyd ar ystod lawn o wybodaeth am berfformiad, gan gynnwys:
- data ar berfformiad;
 - data ariannol;
 - gwybodaeth am gwynion; a
 - gwybodaeth am reoli risg.
- Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i'w sicrhau ei hun ynghylch darbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a chynaliadwyedd y gwasanaeth cynllunio.
- 27 Hyd at fis Medi 2020 roedd Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys risg a oedd yn gysylltiedig â chynnal a datblygu polisiau cynllunio effeithiol (gan gynnwys cyflawni gwaith gorfodi effeithiol). Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020, nododd y Pwyllgor Archwilio fod y rhan o'r risg hon a oedd yn ymwneud â chyflawni gwaith gorfodi effeithiol wedi cael ei thynnu oddi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. O ystyried y materion arwyddocaol parhaus o ran darparu

gwasanaeth gorfodi cynllunio mae'n aneglur beth oedd y sail resymegol dros dynnu'r eitem hon oddi ar y gofrestr risgiau.

- 28 Cafodd risg gorfforaethol newydd mewn perthynas â chyrraedd targedau statudol o ran darparu gwasanaethau ei chyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Mawrth 2021. Rhoddwyd sgôr uchel i'r risg, ond o fewn papurau'r Pwyllgor Archwilio nid yw'r risg wedi'i diffinio'n glir ac nid oes mesurau rheoli eglur ar ei chyfer. Er bod cynnwys perfformiad cynllunio fel risg gorfforaethol yn rhywbeth sydd i'w groesawu, mae'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r risg hon yn annigonol.
- 29 Er bod y Cyngor yn mynychu grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol e.e. Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, nid yw'n gwneud gwaith meincnodi trylwyr gyda chynghorau eraill mewn perthynas â pherfformiad nac arfer da mewn gwasanaethau cynllunio. Gall fod cyfleoedd i'r Cyngor gydweithio'n fwy a dysgu o arfer da mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill i'w helpu i lywio gwelliant yn gynaliadwy.

Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau

- 30 Mae'r gwasanaeth cynllunio'n wasanaeth sy'n creu incwm, y telir amdano trwy ffioedd a godir ar gwsmeriaid am benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r llwyth achosion presennol o ran ceisiadau cynllunio'n cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i swyddogion gyfathrebu gyda chwsmeriaid a rhoi diweddariadau iddynt am gynnydd gyda'u ceisiadau.
- 31 Dywedwyd wrthym fod rhai sylwadau am anfodlonrwydd neu bryderon gan gwsmeriaid ynghylch rheoli datblygu a gorfodi'n cael eu cyfeirio at yr Aelodau Etholedig Lleol, Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol, neu brif swyddogion y Cyngor. Yn aml mae hyn yn digwydd pan fo cwsmer wedi ceisio ond wedi methu â chysylltu â'r gwasanaeth cynllunio'n uniongyrchol neu wedi methu â chael ymateb boddhaol. Dywedwyd wrthym fod yr Aelodau Etholedig a/neu'r prif swyddogion wedyn yn cysylltu â'r gwasanaeth cynllunio i uwchgyfeirio'r mater, a bod hyn yn achosi mwy o waith i swyddogion cynllunio, a phawb sy'n gysylltiedig.
- 32 O ran llwyth achosion swyddogion cynllunio, bydd angen i'r Cyngor ystyried sut y mae'n taro cydbwysedd rhwng galwadau blaenoriaethu cynlluniau mawr a gwaith adfywio ar y naill law, a phenderfynu ar bob math arall o geisiadau cynllunio ar y llaw arall.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.